Pris: 50c

# Papur Pawb

Chwefror 2023 Rhif 486




tud 3 Pobl a Phethe
tud 6 Dod i Nabod
tud 9 Yn NATURiol
tud 12 Colli Cawr




# STREIC!

***Yn ddiweddar clywsom yn ddyddiol am weithwyr mewn sectorau cyhoeddus yn brwydro dros hawliau a chyflog teg. Dyma ymateb athrawes leol, Kath Edwards, sydd hefyd yn weithgar gyda'r undeb addysg NEU sef un o'r undebau sy'n gweithredu'n ddiwydiannol.***

**Ar Chwefror 1af, gwelwyd y cyntaf o bedwar diwrnod o streicio gan aelodau'r NEU ar draws Cymru a Lloegr. Bydd tri diwrnod arall o streiciau yng Nghymru ar 14eg o Chwefror ac ar 15fed a 16eg o Fawrth a fydd yn effeithio 28 o ysgolion yng Ngheredigion.**

Nid ar chwarae bach wnaethon ni benderfynu streicio – byddai'n well gennym fod yn ein dosbarthiadau yn cefnogi'r disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r llywodraeth wedi gadael llawer o ddewis i ni ac rydyn ni'n gofyn i rieni ein cefnogi ni er mwyn cefnogi dyfodol addysg plant.

Ym mis Gorffennaf, cynigiodd y Llywodraeth godiad cyflog o 5% i'r mwyafrif o staff addysg. Fodd bynnag, gyda chwyddiant yn parhau i fod dros 10% mae hyn yn doriad cyflog mewn termau real, ar ben blynyddoedd o godiadau cyflog is na chwyddiant neu ddim codiadau cyflog o gwbl. Mae rhai cyfrifiadau yn dangos bod cyflog wedi gostwng dros 20% mewn gwerth dros y 10 mlynedd ddiwethaf ar gyfer rhai staff ysgol. Nid yw'r cynnig cyfredol o 5% yn adlewyrchu'r cynnydd yn ein morgeisi, tanwydd a'n biliau bwyd. Yn waeth na hynny, nid yw'r codiad cyflog yn cael ei ariannu'n llawn gan y Llywodraeth a bydd rhaid iddo ddod allan o gyllidebau cyfredol yr ysgolion.

Mae ysgolion eisoes wedi cael eu tanariannu am y ddegawd ddiwethaf gyda meintiau dosbarthiadau'n cynyddu a llai o gymorth yn y dosbarth o ganlyniad, felly mae'n llwyth gwaith wedi cynyddu, mae gweithio yn y dosbarth yn llawer mwy heriol a does dim llawer mwy o arbedion all ysgolion wneud.

O ganlyniad i gyflogau isel ac amodau gwaith anodd mae un o bob tri Athro Newydd Gymhwyso yn gadael y proffesiwn o fewn pum mlynedd ac mae ysgolion yng Ngheredigion ac ar draws Cymru nawr yn cael trafferth llenwi swyddi gwag gyda rhai swyddi yn parhau'n wag am gyfnod hir. Mae hyn hefyd yn arwain at ddirywiad yn ansawdd yr addysg sydd ar gael i blant.

Felly, digon yw digon – rydyn ni angen codiad cyflog sydd wedi'i ariannu'n llawn, ac sy'n cyd-fynd â'r lefel chwyddiant presennol, fel bod ysgolion yn gallu cyflogi'n deg a chadw digon o staff i roi'r cymorth a'r addysg y mae ein plant yn ei haeddu.

Rydyn ni'n gofyn i rieni gefnogi'n hymgyrch drwy ysgrifennu at Aelodau Senedd Cymru ac Aelodau Senedd San Steffan ynghylch y problemau ariannu sy'n wynebu ein hysgolion.

**Kath Edwards**, Athrawes Ysgol Uwchradd, Ysgrifennydd NEU Ceredigion

.............rhagor ar tud.2

## Papur Pawb

**Golygydd Cyffredinol:**
Gwyn Jenkins
**(01970) 832560**
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
**golygydd@papurpawb.com**

**Tynnu lluniau:**
Cysyllter â golygyddion y mis

**GOHEBYDDION LLEOL**

**Tal-y-bont:**
Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
**832592**

**Parsel Henllys:**
Rhys Huws, Llwyn Onn
**832076**

**Bont-goch:**
Cathryn Lloyd-Williams
**cat_yfoel@hotmail.com**

**Llangynfelyn:**
Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
**832573**

**Eglwys-fach/Ffwrnais:**
Non Griffiths
**(01654) 781264**

**Rhwydweithiau cymdeithasol:**
Ceri Morgan

**CYMDEITHAS PAPUR PAWB**

**Cadeirydd:**
Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
**832697**

**Is-gadeirydd:**
Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
**832773**

**Ysgrifennydd:**
Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
**832344**

**Trysorydd:**
Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
**832093**

**Tanysgrifiadau:**
Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
**832448**

**Hysbysebion:**
Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont

**Dylunio:**
Iolo ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

**Plygu'r Papur:**
Gwenllïan Parry-Jones; Beti Jenkins

**Dosbarthwyr:**
Lynn Ebenezer; Gwenllïan Parry-Jones; Carys Briddon, John Evans

*Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.*

CYMRAEG

am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan...
**www.papurpawb.cymru**
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

## GOLYGYDDION

Golygwyd y rhifyn hwn gan Cathryn a Llio gyda Iolo'n dylunio.

Diolch iddynt.

Non a Gerwyn (nonjones100@gmail.com) fydd yn golygu rhifyn Mawrth

Y dyddiad cau yw 3 Mawrth a bydd y papur ar werth ar 10 Mawrth.

## STREIC! - parhad o tud.1

*A dyma adroddiad Holly Aubrey, Tal-y-bont, nyrs yn ysbyty Bronglais, ar y streic gan staff y Gwasanaeth Iechyd.*

**Ar y 15fed o Rhagfyr ymunais â staff Bronglais i gefnogi'r streic nyrsio. Dyma oedd y streic fwyaf yng Nghymru yn hanes y Gwasanaeth iechyd.**

Rwyf wedi gweithio yn yr adran damweiniau ac achosion brys ers 2017 ac nid wyf erioed wedi gweld y gwasanaeth o dan gymaint o bwysau. Mae gennym lawer o staff asiantaeth yn yr adran i neud lan am y prinder staff. Mae'r ystafell aros yn llawn gyda chymaint o bobl yn dioddef o fân salwch, dolur gwddf, heintiau clust, peswch, nad ydynt yn gallu gweld meddyg teulu oherwydd prinder staff.

Dydi hi ddim wedi bod yn hawdd ond mae'n rhaid i ni sefyll fyny i'r llywodraeth. Mae'n rhaid iddyn nhw ddeall bod ni'n sefyll fyny dros y proffesiwn. Fedrwn ni ddim fforddio colli mwy o nyrsys, da ni wedi colli cymaint yn barod.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig codiad cyflog o rhwng pedwar a phump y cant gan ddweud eu bod nhw'n methu cynnig mwy heb fwy o arian gan San Steffan. Mae angen i Lafur ym Mae Caerdydd a'r Ceidwadwyr yn San Steffan i gael eu pennau at ei gilydd a sicrhau bod staff gofal iechyd yn cael eu talu'n deg.
Mae Plaid Cymru wedi datgan cefnogaeth i benderfyniad y nyrsys. Rydym wedi cael llawer o gefnogaeth gan Ben Lake ac Elin Jones ac rydym yn hynod o falch drosti.

Bydd nyrsys hefyd yn streicio yng Nghymru ar 6 a 7 Chwefror, gan olygu y bydd nyrsys a staff ambiwlans ar streic ar yr un diwrnod ar ddydd Llun, 6 Chwefror. Mae croeso i'r cyhoedd ymuno yn y gefnogaeth ar ddyddiadau'r streic nesaf.




Neuadd Goffa Tal-y-bont
**HWYL DDEWI 2023**
Nos Sadwrn 25 Chwefror
**Cawl a Chân yng nghwmni**
**IWCADWLI**
Gweinir Cawl am 6.30
Adloniant 7.30
Tocynnau: £8 i oedolion
£2 i blant

## Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus gyda swyddogion Dŵr Cymru i drafod cyflwr carthffosiaeth Tal-y-bont a'r llygredd sy'n mynd i'r afonydd

Rhwng 19.00 a 19.45
Nos Lun, 27 Chwefror, 2023

Yn y Neuadd Goffa

**Croeso i bawb**

## Taliad ychwanegol

Mae *Papur Pawb*, fel papurau bro eraill Cymru, yn derbyn grant blynyddol gan Lywodraeth Cymru ac yn ddiolchgar iawn am hynny. Braf yw medru adrodd i'r Llywodraeth gynnig taliad ychwanegol un-tro o £100 i bob papur bro tuag at gostau cyhoeddi. Dywedodd y gweinidog Jeremy Miles: 'Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd, a dylai pawb gael y cyfle i'w defnyddio hi yn eu bywydau bob dydd. Bydd y taliad un-tro hwn yn helpu ein rhwydwaith o sefydliadau sy'n rhoi cymorth i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn sgil yr argyfwng costau byw.'

## Byw y tu allan i ddalgylch Papur Pawb?

Dyma'r siopau sy'n gwerthu Papur Pawb y tu allan i ddalgylch y papur:
Siop Inc a Siop y Pethe, Aberystwyth
Y Swyddfa Bost, Penrhyn-coch
Siop Spar, Bow Street
a Mr News, Machynlleth

Mynnwch gopi o'r rhifyn diweddaraf am 50c yn unig.

# DYDDIADUR

### CHWEFROR

12 **Bethel** 10 Gwilym Tudur (C)
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
13 **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch** 'Gwnïo geiriau a chyffwrdd â cherddi' (Judith Musker Turner)
14 **Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth** 'Gwehyddu fel hobi' (Sue Youell)
16 **Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 7 Gweddi Hwyrol
**Noson Agored** Cletwr
**Yoga** 6–7.30 Ystafell Haearn, Eglwysfach
17 **Cwis** 8 Wildfowler
18 **Dal ati** 10.30–11.30 Cletwr
**Ar Gered (Taith gerdded)** 10.30 Cletwr
**Noson Bingo** gan Gymdeithas Sioe Tal-y-bont 7.30 Neuadd Goffa Tal-y-bont
19 **Bethel** 10 Uno â Seion (Gwilym Tudur)
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
23 **Bingo** 7.30 Wildfowler
25 **Noson Hwyl Ddewi** gyda Iwcadwli 6.30 Neuadd Goffa Tal-y-bont
**Cwis i gefnogi'r Ystafell Haearn** 7.30 Ystafell Haearn, Eglwysfach. Cysyllter ag Alison Swanson (01654 781322/alisonswanson7@icloud.com)
26 **Bethel** 10 Geraint Evans
**Rehoboth** 11.15 Gweinidog
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
**Noson ffilm** Cletwr
27 **Doctor Digi** Cletwr

### MAWRTH

3 **'Jazz a Mwy'** gan Glyderau 7.30–9.30 Cletwr
4 **Bore Coffi** 10–12 Neuadd Llanfach, Taliesin
**Dal ati** 10.30–11.30 Cletwr
5 **Bethel** 10 Uno â Seion (Gwilym Tudur)
**Rehoboth** 11.15 Gweinidog
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
**Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 Cymun Bendigaid
9 **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch** Ymuno â changen Penrhyn-coch
12 **Bethel** 10 Gwilym Tudur (C)
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

### BOB WYTHNOS

**Cletwr** Dydd Llun 2.30–4.30 'Pwyth a Chlonc'
**Cletwr** Dydd Mawrth 1–4 'Clonc a Gweu'

Cofiwch anfon manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o'r papur.

# Pobl a Phethe

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Llion a Catrina, Maes y Dderwen, Ffwrnais, ar enedigaeth eu mab, Ronnie Rhys Jenkins, a annwyd ar Ionawr 20fed, brawd bach annwyl i Indi.

Llongyfarchiadau i Ciara Laverty ar ennill ei doethuriaeth mewn Cyfraith Droseddol Ryngwladol o Brifysgol Leiden yn yr Iseldiroedd.

**Ysbyty**
Dymunwn yn dda i Annie James sydd yn yr ysbyty yn Nhreforys ar hyn o bryd.
Hefyd anfonwn ein cofion at Ron Roberts, Hafodty, sydd hefyd yn yr ysbyty yn Nhreforys.

Braf clywed bod Gwilym Jenkins, Llety'r Bugail, a Tegwen Nutting, Tyhen Henllys, wedi dychwelyd adref ar ôl cyfnod yn yr ysbyty.

**Penblwydd arbennig**
Pob dymuniad da i Enid Gruffydd, Bryngwyn, ar ei phenblwydd arbennig yn ddiweddar.

Penblwydd hapus hefyd i Hana Grug Evans a ddathlodd ei phenblwydd yn 21 oed.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn gyda theulu Pengwern, Tal-y-bont gan i Betty golli ei brawd yng nghyfraith yn Llanybydder. Collwyd perthynas agos arall iddynt hefyd yn ddiweddar yn Abergwaun.

Anfonwn ein cydymdeimladau hefyd at Patsi Madden, Maes y Deri, ar golli ei efaill a'i chwaer yng nghyfraith yn Iwerddon.

**Wedi Ymddeol**
Pob dymuniad da i Lynn Ebenezer, Maes y Felin, Tal-y-bont ar ei hymddeoliad ddiwedd Rhagfyr. Bydd ganddi ddigon o amser nawr i fwynhau cwmni Alffi yr ŵyr bach.

**Perfformwyr lleol**
Braf iawn oedd gweld Sam Ebenezer yn cymryd rhan ar Noson Lawen yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr iddo.



**Pantomeim**
Fy enw i yw Ariana Lloyd-Williams, ac fe gefais y pleser o gael cymryd rhan ym Mhantomeim *Mother Goose* yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth. Roedd y profiad hwn yn anhygoel. Roedd y dawnsio, y canu a'r actio yn wych. Roedd yn gymaint o hwyl gallu gwneud ffrindiau newydd a dysgu pethau newydd. Roedd y gwisgoedd yn anhygoel ac yn llawn lliw. Roedd y prif gymeriadau'n wych ac ni fyddai'r sioe wedi bod cystal heb y cymeriadau hyn. Yn fy marn i dyma'r Pantomeim gorau eto. Mae fy holl ffrindiau sydd wedi cymryd rhan yn y sioe hon yn arbennig, ac ni fyddai'r sioe wedi mynd ymlaen heb yr holl blant. Rwy'n gyffrous i ddweud mai'r pantomeim nesaf fydd *Beauty and the Beast*, a gall unrhyw un gael clyweliad. Dwi wedi joio yn fawr ac yn edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf yn barod.

Braf iawn oedd gweld dwy ferch leol sef Ariana Lloyd-Williams, Moelgolomen a Miriam Llwyd Davies, Llandre sy'n gyn ddisgybl Ysgol Tal-y-bont, yn cymryd rhan ym mhantomeim Mother Goose yng Nghanolfan y Celfyddydau.

**Croeso**
Croeso cynnes i Bart, Weronika a Casper Jarzenbowski sydd wedi dod i fyw i Faes-y-Deri.

**Cerian**
Gan fod Cerian Screen yn gadael ei swydd yn Fferyllfa Tal-y-bont ac oherwydd ei phoblogrwydd ymhlith cwsmeriaid a thrigolion yr ardal, trefnwyd casgliad gan Garej Davmor er mwyn cydnabod ei chyfraniad. Codwyd swm anrhydeddus a phan ddaeth Cerian i'r pentref ar 2 Chwefror cyflwynwyd y casgliad iddi. Deallwn iddi fod yn ei dagrau yn derbyn y rhodd ac yn ddiolchgar i bawb am eu cefnogaeth.

## BORE COFFI LLANFACH

Gwahoddir cymuned Llangynfelyn i Fore Coffi i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi yn Neuadd Llanfach, Taliesin, ar fore Sadwrn, 4 Mawrth, rhwng 10 o'r gloch a hanner dydd. Codir tâl bychan o £2 gan mai pwrpas y bore coffi yw i ddechrau codi arian sydd fawr ei angen ar y Neuadd. Hefyd bydd raffl a byddwn yn cychwyn Clwb 100 gyda thocynnau yn cael eu gwerthu yn y bore coffi. Rydym yn gobeithio y bydd rhai cynrychiolwyr o'r gwahanol glybiau sy'n defnyddio'r neuadd yn medru bod yn bresennol er mwyn ceisio codi mwy o ymwybyddiaeth o'r neuadd a'r hyn y gellir ei defnyddio ar ei gyfer.






## Sesiwn Nos Wener gyda Cleif Harpwood




Cleif Harpwood yn diddanu y gynulleidfa niferus a ddaeth i'r Llew Gwyn ar gyfer Sesiwn Nos Wener mis Ionawr.




### Siarter Iaith

**Gwersyll yr Urdd, Llangrannog:** Ers rhai blynyddoedd bellach mae'r ysgol wedi trefnu gwibdaith i Wersyll yr Urdd Llangrannog yn ystod mis Ionawr. Eleni, tro Blwyddyn 4 a 5 oedd hi i fynd ac ar ôl gorfod gohirio'r ymweliad sawl gwaith dros y blynyddoedd diwethaf, roedd hi'n braf gallu mynd o'r diwedd. Dyma atgofion rhai o'r plant o'r ymweliad:



"Roeddwn i wedi mwynhau mynd ar y beiciau cwad achos roedden nhw mor gyflym ac yn hwyl" – DD
"Roeddwn i wedi hoffi'r gwibgartio achos roeddwn i'n mynd lawr y llethr mor gyflym ac roedd hi'n wlyb" – Minnie
"Y peth wnes i fwynhau mwyaf oedd y rhaffau uchel. Roeddwn i'n teimlo'n ddiogel achos bod fy mhartner yn fy nghefnogi pan oeddwn i'n mynd o amgylch y cwrs" – Mari
"Fy hoff ran oedd y rhaffau isel gan fod pawb yn cefnogi ein gilydd hyd yn oed y plant oedd ddim eisiau gwneud. Ac yn y diwedd roedd pawb wedi cael llawer o ŵyl" – Edith.



"Roeddwn i wedi mwynhau mynd ar y trampolîns achos roeddwn i'n gallu mynd yn uchel iawn ac fe wnes i fwynhau gwneud flips." – Alys
"Roeddwn i wedi mwynhau mynd i'r disgo achos roeddwn i'n hoffi chwarae *musical statues* gydag ysgolion eraill roedd hynny'n hwyl"
Diolch yn fawr iawn i'r staff am fod mor gefnogol ar y gweithgareddau ac am y bwy blasus. Roedd hi'n hyfryd i gael cwrdd gyda disgyblion o ysgolion eraill yng Ngheredigion a gwneud ffrindiau gyda phlant Ysgol Craig yr Wylfa.

**Dydd Santes Dwynwen:** Cafwyd ddigon o hwyl wrth ddathlu Dydd Santes Dwynwen yn yr ysgol ar ddiwedd is Ionawr. Aeth pob dosbarth ati'n brysur i gwblhau gweithgareddau diddorol ac roedd

# Ysgol



hi'n braf i weld yr holl fedrau creadigol ar waith. Diolch yn fawr i'r Criw Cymraeg am helpu gyda'r bowlio-10.

**Cwis Dim Clem:** Wedi cynnal cwis o fewn y dosbarth, roedd hi'n amser i gystadlu yn erbyn ysgolion eraill o Geredigion.



Diolch yn fawr i Rhodri a Steffan o CERED am drefnu'r cwis a llongyfarchiadau i Martha, Tomos, Shae a Rowan am gynrychioli'r ysgol.

**Cydweithio:** Mae disgyblion Ysgol Tal-y-bont wedi cydweithio gyda Chwmni *CISP Multimedia* yn y gorffennol ac roedd hi'n



hyfryd ailgydio yn y berthynas yn ddiweddar wrth groesawu Beth atom dros TEAMS i gynnal gweithdy ar greu panel comic i'r ysgol. Tro dosbarth Blwyddyn 4 a 5 oedd hi i gydweithio'r tro yma ac maent wedi selio'r gwaith ar un o chwedlau Maelgwn Gwynedd ar draeth Ynys-las. Diolch yn fawr i Miss Eleri Jones am arwain y gwaith ac am bob cymorth dros y misoedd diwethaf.

# Tal-y-bont

### Ysgol y Gymuned

**Cwmni Theatr Arad Goch:** Mae hi bob amser yn braf i groesawu Theatr Arad Goch atom. Mae ganddyn nhw stori hyfryd i'w rannu ymhob perfformiad i'r plant lleiaf a doedd y tro yma ddim



gwahanol gyda 'Ble Mae'r Dail yn Hedfan'. Roedd hi'n hyfryd i weld y pant yn ymateb mor frwdfrydig i'r actio a'r symudiadau. Braf oedd cael croesawu disgyblion Ysgol Craig yr Wylfa i ymuno gyda ni hefyd. Diolch yn fawr am gael defnyddio'r Neuadd Goffa unwaith eto ar gyfer y cyflwyniad a diolch i Jenny am drefnu'r cludiant.

**Ymweliad:** Mae Blwyddyn 6 wedi bod yn astudio hanes y mwynfeydd plwm lleol yn ystod y tymor a phwy well i'w rhoi nhw ar ben ffordd na Phillip Hughes. Roedd ganddo stôr o wybodaeth



am bwysigrwydd y mwyngloddio i ardal Tal-y-bont ac roedd y lluniau ohono dan ddaear yn ddiddorol iawn. Roedd clywed ei hanesion am fynd o dan ddaear a gweld yr arteffactau'n ychwanegu cymaint at y sgwrs. Braf dweud bod y plant wedi ymateb yn frwdfrydig iawn i'w gwestiynau hefyd.

**Gwisgo Coch i Felindre a Chymru:** Mae hi'n draddodiad i Ysbyty Felindre, Caerdydd i drefnu diwrnod codi arian mawreddog ers sawl blwyddyn bellach. Eleni roedd y dyddiad yn cyd-fynd gyda dechrau Pencampwriaeth Rygbi y 6 Gwlad – felly cyfle i gefnogi tîm Cymru a'r ysbyty. Diolch yn fawr i chi gyd am eich cefnogaeth – fe godwyd y swm anrhydeddus o £130 at yr elusen bwysig yma.

### Ysgol Iach

**Gala Nofio:** Mae mis Ionawr wastad yn brysur yn y pwll nofio i ysgolion Cylch Aberystwyth. Aeth tîm o 12 o'r ysgol i gystadlu unwaith eto eleni ac fe gafwyd sawl perfformiad arbennig o dda, gyda rhai yn ennill eu rasys. Llongyfarchiadau mawr i chyd gyd am gystadlu mor frwd yn erbyn ysgolion eraill.

**Rygbi:** Diolch yn fawr i Mr Bleddyn Thomas am ddod atom i gynnal sesiwn hyfforddi rygbi ar ddiwedd y mis. Roedd y



disgyblion yn gyffrous iawn i gael rhywun profiadol yn eu dysgu gan fod pencampwriaeth rygbi'r Urdd ar y gorwel. Fel y gwelwch o'r llun roedd pawb wrth eu boddau ar ôl y sesiwn ymarfer. Rydym yn edrych ymlaen at eich gweld yn fuan eto.

### Cwricwlwm i Gymru

**Dewiniaid Digidol:** Mae Dewiniaid Digidol yr ysgol wedi bod yn brysur unwaith eto'n cael eu hyfforddi i gyflwyno agweddau o TGCh i weddill yr ysgol. Y tro yma fe gawson nhw hyfforddiant dros TEAMS gan Swyddogion y Sir ar sut i greu *Google Sites*. Doedd dim angen gofyn ddwywaith iddynt fynd i ddosbarth Blwyddyn 4 a 5 i gyflwyno'r negeseuon – da iawn chi fechgyn.

### Llysgenhadon y Mynegiannau Celfyddydol

Rydym yn ffodus iawn o gael criw o ddisgyblion ar ben uchaf yr ysgol sy'n cymryd eu cyfrifoldebau'n wir o ddifri. Bob yn hyn a



hyn mae merched Blwyddyn 6 yn gofyn am gael cynnal sesiynau symud a drama mewn dosbarthiadau eraill ac mae'r plant wrth eu boddau gyda hynny wrth gwrs. Mae hi mor braf eu gweld yn ymateb mor bositif i'w ffrindiau. Da iawn chi a daliwch ati!

# Dod i Nabod … Nicola Dunkley



**Does neb yn ei hadnabod fel Nicola, Nic yw hi i bawb; ac felly ei gŵr Andrew Rowbottom sy'n Ro. Maent yn byw yn y lôn fach ger Capel Rehoboth, Tre Taliesin, ers tri deg o flynyddoedd ac yn y tŷ hwn y magwyd eu meibion Evan a Gwilym. Aeth y ddau i Ysgol Llangynfelyn ac ymlaen i Benglais a phrifysgolion i astudio peirianneg, pwnc eu tad. Tra bod Gwilym yn dilyn bywyd fel peiriannydd yn Huddersfield penderfynodd Evan mai bywyd awyr agored oedd orau ac mae'n synnu'r Cymry Cymraeg ar eu gwyliau yn Seland Newydd pan fo'n eu tywys lawr afonydd peryglus gwyllt mewn rafft ac yn eu hateb yn Gymraeg.**

Un o Sussex yw Nic, yno cafodd ei haddysg gychwynnol cyn gadael am brifysgol Caerlŷr i astudio Ffrangeg ac Almaeneg ac i gwrdd â Ro. Bu'n dysgu am gyfnod yn Halifax tan gafodd Ro swydd gyda Dulas ym Machynlleth: yn ddiweddar symudodd i weithio yn adeilad newydd sbon *Aber Innovation* ger y ffordd i Benrhyn-coch.

Dechreuodd Nic ddysgu Cymraeg yn syth ar ôl symud i Gymru ac yn sgîl hyn cafodd swydd fel Rheolwr Datblygiad Cymdeithasol ym Mhowys yn gweithio allan o swyddfa ym Machynlleth, bu yno am ddeng mlynedd. Ymhlith swyddogaethau eraill roedd yn gyfrifol am neuaddau pentrefi a chlybiau'r ifanc . Bu Powys yn hael ac yn garedig iddi gan gynnig cyfleoedd iddi fynd ar gyrsiau Cymraeg, dwywaith i Nant Gwrtheyrn, i Gregynog ac i fynychu dosbarthiadau Cymraeg 6ed Dosbarth Ysgol Bro Ddyfi. Trobwynt yn ei bywyd meddai Nic oedd y diwrnod y penderfynodd ei rheolwr llinell nad oedd am siarad dim mwyach ganddi yn Saesneg, ymlaen â'r Gymraeg.

Trobwynt arall ar daith Nic i ddysgu'r Gymraeg oedd mynychu digwyddiadau gyda Medi James. Sylwer digwyddiadau ac nid gwersi, hynny yw y cyfle i fod mewn sefyllfa ble roedd rhaid defnyddio'r Gymraeg. Un o'r rhain oedd ymweliadau ag Ynys Enlli dros sawl haf. Mynd yno gyda llond dyrnaid i fyw mewn awyrgylch hollol Gymraeg, rhai a oedd yn rhugl eu Cymraeg yn byw dan-yr-un-to â dysgwyr da. Cofia am yr ymweliadau hyn gyda chynhesrwydd.

Wrth weithio gyda'r ifanc daeth Nic i sylweddoli bod angen mwy na chlwb llawn gweithgareddau corfforol a bod angen diwallu eu hanghenion emosiynol, meddyliol, cymdeithasol ac ateb eu pryderon yn gyffredinol. Roedd angen cwnsela'r bobl ifanc, a dyma pryd y dechreuodd Nic ar y gwaith mae hi nawr yn ei wneud yn llawn amser, sef cwnsela. Ar ôl iddi ennill Diploma Cwnsela yn 2007, dechreuodd weithio fel cwnselydd peripatetig yn ysgolion uwchradd Powys a hefyd ymunodd â gwasanaeth cwnsela myfyrwyr Prifysgol Llambed. *Yn 2009 datganodd Llywodraeth Cymru bod angen cwnselydd ym mhob ysgol uwchradd yn ein gwlad.*

Gan bod ei Chymraeg erbyn hyn yn rhugl gallai wasanaethu ysgolion Tregaron a Phenweddig. Ar un adeg bu cwmni o'r enw Gwasanaeth Cwnsela a Seicolegol Gorllewin Cymru yn cynnig cwnsela i'r staff oedd ei angen ym mhrifysgolion Aberystwyth a Llambed, y Llyfrgell Genedlaethol, Cyngor Sir Ceredigion a busnesau lleol. Roedd Nic yn rhan o hyn.

A fuoch chi mewn angladd yn ddiweddar a chithau ddim yn nabod y Gweinydd? Ai Nic oedd honno? Beth am angladd heb weinidog cydnabyddedig mewn cae neu fynwent leol neu mewn coedwig fel yr un sydd i gael ym Moduan ger Pwllheli, Ymddiriedolaeth y Goedwig Dragwyddol? Swydd Nic yw gwasanaethu mewn angladdau o'r fath fel Gweinydd Angladd Annibynnol a dyma'r hyn mae Nic yn ei gynnig ers 2018. Roedd ymgymerwr angladdau i'r gogledd yn ddigon hyderus yn ei Chymraeg i holi am wasanaeth Nic ar fferm. Derbyniodd Nic y cynnig ond roedd y ffermwr gymaint dan deimlad methodd hi â deall llawer o'r hyn a ddywedodd neu ai prinder ei Chymraeg oedd y rheswm? Cofier taw hwn oedd y gyntaf iddi wasanaethu yn y Gymraeg. Daeth merch y fferm i'r adwy a llenwi'r bwlch ddigon i Nic fedru gweinyddu'n llwyddiannus. Bedydd tân fel petai! Mae wedi trefnu sawl un ers hynny yn llwyddiannus yn y Gymraeg ac yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth ei ffrindiau sy'n Gymry Cymraeg efo cywiro ei gwallau iaith. *Dylid nodi os oes angladd i fabi marw-anedig neu i blentyn dan 18 oed nid yw'r sawl sy'n gwasanaethu yn gofyn am gostau.*

Mae Nic wedi gwirfoddoli ar gyfer yr elusen, 'Gofal mewn Galar Cruse' ers 2004. Y teimlad yw bod cael unigolyn hollol annibynnol yno i gynnig clust i beth sydd gan bobl i'w ddweud yn well na chadw eu teimladau a'u pryderon iddyn nhw ei hun. Gall pobl fynegi eu hunain yn rhydd o flaen diethryn proffesiynol sy'n gyfarwydd â gwrando'n broffesiynol; gall fod yn well na datgelu i'r teulu, ffrindiau neu gymdogion maen nhw'n nabod yn dda. Gellir o bosib ddatgelu cyfrinachau.

Ond mae gan Nic ddiddordebau hefyd, yn eu plith darllen. Honna iddi ddarllen tua chant o lyfrau'r flwyddyn, mae'n well na gwylio'r teledu meddai hi. Pan roedd y plant yn byw gartre nid oedd ganddynt deledu. Darllen oedd popeth ac mae'r arferiad yn parhau er bod bocs bach yn y gornel nawr. Gwelir Nic ar ei beic o gwmpas y lle hefyd fel un sy'n amgylcheddol gyfeillgar iawn. Deellir bod gan Nic a Ro feic newydd erbyn hyn, tandem trydan a aeth â nhw ill dau ar daith dros y gwyliau diweddar i'r de o Baris. Braf yw cyflwyno Cymraes newydd i ddarllenwyr *Papur Pawb* er bod llawer yn ei hadnabod cyn hyn ond efallai heb glywed am ei thaith ieithyddol a'i gwaith gwerthfawr gyda'r llai ffodus ohonom pan fo'r anochel yn dod ar ein traws.

RhH



# Prifathrawes Ysgol Eglwys-fach: Atgofion o'r Pumdegau



**Plant Ysgol Eglwys-fach 1960** (Llun drwy garedigrwydd Alison Swanson)
**Rhes gefn, o'r chwith i'r dde:** Michael Green, Maureen Evans, Barbara Ellis, Jean Tye, David Jenkins
**Rhes ganol, o'r chwith i'r dde:** Keith Evans, Charles Pierce, Tony Griffiths, Tomos Wyn Jones, Ceri Williams, Margaret Jenkins, George Rowlands, Helen Murray, Alison Hopkins
**Rhes flaen, o'r chwith i'r dde:** William Jones, Huw Owen, Carolyn Jones, Moyra Murray, ? Tye, Maureen Evans
**Athrawon:** Chwith: Dorothy Owen. De: Effi James

**Prifathrawes Ysgol Eglwys-fach yn yr 1950au oedd Effi James; dynes oedd wiw i neb ei chroesi. Os oedd angen adeiladu llwyfan, creu bocsys planhigion, plannu gardd, neu unrhyw beth arall yn yr ysgol, byddai'n gorchymyn tadau'r plant i gyflawni'r dasg. Un mis Rhagfyr dywedodd wrth fy nhad bod rhaid cael coeden Nadolig i'r plant. 'Faint 'dech chi am i wario?' 'Dim byd! Drychwch fyny ar y mynydde 'na? Be 'dech i'n gweld? Coed Nadolig! Bydde neb yn sylwi petai dim ond un yn mynd ar goll. Fe edrycha i mlân i weld un bore fory. Ond cofiwch, os cewch i'ch dal, mi ffeiniau i chi'n drwm yn y cwrt.' A dyna sut lwyddod ustus heddwch i wneud lleidr o enillydd 'Good Conduct Medal' y fyddin.**

Yn ddiweddarach, bu'n rhaid i Effi ymddeol o fainc Talybont, am ddyfarnu aelod o Gymdeithas yr Iaith yn euog o rhyw drosedd, ac yna estyn am ei phwrs i dalu'r ddirwy ar ei ran. 'Roedd yr iaith yn bwysig iddi. Fel prifathrawes, sicrhaodd bod plant o dras Seisnig, Eidalaidd, Gwyddelig a Sgotaidd yr un more rhugl yn yr iaith a phlant teuluoedd gwbl Gymreig. Fel gormod o athrawon ar y pryd, 'roedd Effi'n tueddu i bwnio gwybodaeth yn llythrennol i mewn i'n pennau. Ond 'roedd yn benderfynol bod pob plentyn yn llwyddo, pa beth bynnag oedd ei gefndir. Yn yr un modd, 'roedd yn croesawu unrhyw blentyn gydag anghenion ychwanegol i'r ysgol, ar yr un amod ei fod e'n 'bihafio'. 'Roedd y canlyniadau gwych yn yr arholiad 11+ ymysg y gorau yn y sir ac yn dyst i'w hymdrechion.

Ysywaeth, ychydig o sylw a dalwyd i'r ysgol gan swyddogion Swyddfa'r Sir. Hon oedd yr ysgol fwyaf gogleddol yn yr awdurdod. Bob prynhawn byddai'r bws ysgol o Aberystwyth yn troi 'nôl yn Ffwrnais. Felly 'roedd yn rhaid i blant Glandyfi gerdded dwy filltir ychwanegol adref. Ai cosb oedd hyn am y ffaith bod cynifer o blant y pentref yn dewis mynd i Fachynlleth am eu haddysg uwch? Ar un achlysur, bu difaterwch yr awdurdod addysg bron yn drychinebus. Fy mam oedd glanhawraig yr ysgol pan benderfynwyd newid y tanau agored am stofiau glo carreg (anthracite). Ar ôl llawer o lanastr, daeth y clerc gwaith i ddweud wrthi bod y stofiau'n barod i'w defnyddio. 'Ond ble ma'r 'anthracite'?' gofynnodd. 'Bydd rhaid i chi ddiwedd y glo sy' gyda chi gynta. Ma pethe'n costio,' daeth yr ateb cwta. Trannoeth taniwyd y stofiau newydd. Hanner ffordd trwy'r bore, dyma un o'r plant ieuangaf yn syrthio'n swrth i'r llawr. Fe'i dilynwyd gan sawl plentyn arall. Mae'n debyg mai wedi'u gwenwyno gan y nwy o'r glo anghywir oedd y plant. Galwyd am y clerc gwaith. Er iddo wadu ei fod wedi argymell i mam ddefnyddio'r glo tân 'roedd y brifathrawes yn dyst i'r hyn a ddwedwyd. Cyn iddo adael, gorfodwyd iddo dorchi'i lewys a mynd ati i lanhau'r ddwy stof yn drwyadl, tra'n cael ei geryddu'n groch gan mam ac Effi James.

'Roedd Miss James bob amser yn edifaru ei bod erioed wedi dysgu canu'r piano. Er hynny gwnaeth yn siŵr ein bod ni'n dysgu caneuon gan Schubert, Brahms, Schumann a Mozart, yn ogystal a chaneuon gwerin Cymraeg. Fel yr ysgrifennais i eisoes yn *Papur Pawb*, un o'r uchafbwyntiau'n hanes yr ysgol oedd ennill y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth band taro Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn 1955. Gwnaeth yn siŵr hefyd ein bod yn dysgu sut i ddawnsio ac arlunio. Un achlysur bythgofiadwy oedd yr ymweliad preifat a drefnodd, yn 1959, i arddangosfa yn y Llyfrgell Genedlaethol. Gwahoddodd Mildred Eldridge - yr arlunydd a gwraig y bardd R.S.Thomas, ficer y plwyf – i esbonio'r darluniau, gan gynnwys ei gwaith ei hun, i ni. 'Roedd Effi James yn bendant o'r farn bod profi celfyddyd o'r safon uchaf yn hawlfraint i bob plentyn, gan gynnwys y plentyn tlotaf o gefn gwlad. Am ran helaeth o'm gyrfa bum yn arolygwr ysgolion. Trwy gydol yr amser hwnnw, prin y deuthum ar draws unrhyw brifathro neu brifathrawes mor benderfynol, uchelgeisiol ac effeithiol ag Effi James.

Aelwyn Pugh




## CYMDEITHAS Y CHWIORYDD REHOBOTH

Estynnwyd croeso i John Roberts, Aberystwyth, i'r cyfarfod ar brynhawn Mawrth, 10 Ionawr yn festri capel Rehoboth. Yn ystod y prynhawn bu'n sôn am y ddwy nofel a gyhoeddwyd ganddo eisoes, gan egluro'n fanwl sut mae'n mynd ati i greu'r cymeriadau ac yna sut mae'r stori'n datblygu trwy'r cymeriadau hynny. Mae ei nofel gyntaf *Gabriela* yn adrodd hanes merch o Frasil o'r enw Gabriela wrth iddi gerdded ar hyd llwybr y pererinion i Santiago de Compostela yng ngogledd Sbaen. Mae'r nofel *Yn fyw yn y cof* wedi ei lleoli yng Nghymru a cheir ynddi hanes tair cenhedlaeth o'r un teulu a'u perthynas gyda'i gilydd. Diolchwyd yn gynnes i John Roberts am rannu ei brofiadau fel llenor, ac yna mwynhawyd paned o de a bisgedi wedi ei baratoi gan Bethan Davies a Non Griffiths.

# Ffotograffau Hefin Jones



*Mae arddangosfa o ffotograffau a dynnwyd gan Hefin Jones, prifathro Ysgol Tal-y-bont yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth. Bu Papur Pawb yn holi Hefin am yr arddangosfa:*

**Llongyfarchiadau ar yr arddangosfa. Ydy hi'n deimlad braf i weld y lluniau ar y wal?**
Diolch yn fawr iawn. Mae wedi bod yn deimlad braf iawn i weld casgliad o fy lluniau gyda'i gilydd ar y wal. Roedd y gwaith wedi cymryd rhai misoedd i'w gwblhau gyda llawer o gamgymeriadau ar y ffordd, ond yn bendant, roedd hi'n werth yr ymdrech.

**Gwlân yw enw'r arddangosfa, ac mae'n amlwg pam. Ond pam fynd ati gyda'r thema yma?**
Cyd-ddigwyddiad os nad damweiniol oedd y thema. Roedd gen i lawer o luniau wedi eu datblygu dros y blynyddoedd ac wrth eu gosod gyda'i gilydd fe ddatblygodd y thema. Roeddwn i'n hoffi'r lluniau o ddefaid ond roedd lluniau eraill yn dangos pobl yn gweithio gyda defaid.

**Mae 7 llun yn yr arddangosfa, ac maen nhw'n edrych braidd yn wahanol.**
Ydyn. Mae rhai portreadau ac eraill yn fwy *abstract* ac mae'r ddau fath o arddull yn apelio ata i. Dwi'n hoffi tynnu lluniau o bobl, ond hefyd yn chwilio am ongl ychydig bach yn wahanol ar bethau hefyd. Mae'n siŵr taw '*quirky*' ydy'r gair Saesneg. Mae'r delweddau sy'n dangos cneifio gyda'r gwellau yn bwysig i fi fel rhywun sy'n hoffi hanes a gobeithio bod y rhai mwy 'rhyfedd' yn mynd i gael pobl i siarad a dyfalu beth sydd yna.

**Ydy'r lluniau'n rhai lleol?**
Mae rhai wedi eu tynnu yn y Sioe Fawr yn Llanelwedd, ond mae eraill yn fwy lleol. Mae'r llun o 'Dei Cneifiwr' wedi ei dynnu ar fferm Penbryn yng Ngoginan a'r llun o'r cneifwyr gyd gwellau wedi ei dynnu yn Sioe Tal-y-bont rai blynyddoedd yn ôl.

**Faint o amser y mae'n cymryd i greu llun?**
Mae hynny'n dibynnu ar safon y negatif. Dydw i ddim yn ofalus iawn wrth dynnu'r llun, sy'n golygu bod angen mwy o waith yn yr ystafell dywyll. Rwyf wedi bod yn ffodus iawn i gael tiwtoriaid amyneddgar iawn yn y gwersi yng Nghanolfan y Celfyddydau gan gynnwys yr enwog Ron Davies, Bernard Mitchell, Marian Delyth ac yn fwy diweddar, y dihafal Steven Bailey – bob un ohonynt yn ffotograffwyr gwych sydd wedi bod mor barod i rannu eu gwybodaeth gyda fi.

**Mae'n rhaid bod camera arbennig gyda chi?**
Fe fyddwn i'n hoffi dweud bod fy nghamera'n werth miloedd. *Minolta X-300* yw'r camera i'r rhai sydd â diddordeb ac yn anffodus, fe gostiodd tua £30 mewn siop ail law. Rwy'n siŵr bod y bag sy'n cario'r camera wedi costio llawer mwy na'r camera ei hun! Ond rwy'n hapus iawn gyda'r camera ac rwyf wedi prynu ambell i lens ail law dros y blynyddoedd hefyd.

**Diolch yn fawr am ateb ein cwestiynau. Ydych chi am ddweud rhyw beth arall?**
Nai roi her i'r darllenwyr felly. Mae un o'r lluniau wedi ei hongian ben i lawr – ond tybed pa un! Gobeithio y gwnewch chi fwynhau'r lluniau.













# Yn NATURiol



**Dywed hen ddihareb Tsieineaidd taw'r amser gorau i blannu coeden yw 20 mlynedd yn ôl, ac os na ellir cyflawni hyn waeth i chi blannu un heddiw. A dyma beth mae criw gwydn o Dal-y-bont wedi penderfynu ei wneud ar raddfa fawr i geisio lleihau effeithiau newid hinsawdd a'r peryglon llifogydd sy'n gysylltiedig.**

Yn ystod y gaeaf diwethaf bu 35 o wirfoddolwyr yn helpu ffermwyr a thirfeddianwyr lleol i blannu 9000 o goed mewn gwrychoedd strategol a lleiniau cysgodi yn nalgylch yr afon Leri. Eleni bwriedir plannu 9000 o goed eto.

Prif nod y grŵp yw plannu coed er mwyn darparu coridorau cynefinoedd a bywyd gwyllt, ac felly cefnogi bioamrywiaeth, dal carbon er mwyn lleihau effeithiau cynhesu byd eang, ac i arafu llif yr afon er mwyn osgoi llifogydd yn Nhal-y-bont yn y dyfodol. Ond mae nifer o resymau eraill dros blannu coed mewn ffordd strategol. Mae llwyth o fanteision ychwanegol ar yr ochr amaethyddol hefyd.

Ar dir fferm gynhyrchiol mae gwrychoedd a lleiniau cysgodi yn darparu bwyd a chysgod i dda byw, ac yn chwarae rhan annatod mewn arferion fferm adfywiol. Mae'r cysgod hefyd yn cadw'r gwres yn y ddaear sydd yn creu mwy o amser i'r gwair cael tyfu. Maent yn helpu i atal erydiad pridd, ac yn lleihau neu ailgyfeirio rhediad dŵr. Mae arafu llif y dŵr nid yn unig yn bwysig iawn i drigolion Tal-y-bont, ond wrth arbed dŵr yn y caeau mae tyfiant y gwair yn well.

Mae'r gwrychoedd hefyd yn helpu i ddosbarthu maetholion pwysig i'r caeau trwy'r dail sy'n disgyn o'r coed bob hydref. Mae gwrychoedd ar y ffin rhwng cymdogion yn gwella bioddiogelwch y ddwy fferm trwy leihau cyfleoedd i barasitiaid fel y clafr neu lau cael ei rhannu.

Un o'r ffermydd y mae'r grŵp wedi bod yn plannu ar yw Moelgolomen sy'n eistedd yn agos at darddiad yr afon Leri.

Esboniodd Rhodri Lloyd-Williams, Moelgolomen ei fod yn ddiolchgar iawn i'r rhai sy'n dod i helpu i blannu, a hefyd i Goed Cadw am gyflenwi'r coed. 'Mae'r manteision i'r fferm o blannu gwrychoedd yn amlwg iawn i ni fel ffermwyr, ond yn ychwanegol at hyn mae'r cyfle i esbonio pwysigrwydd pori ar y mynyddoedd wedi bod yn ddiddorol. Doedd rhai o'r gwirfoddolwyr ddim yn ymwybodol, ond ar ôl cael cyfle i esbonio'r math o amaethyddiaeth sy'n digwydd yma yng Nghymru, mae nifer wedi cytuno prynu mwy o gig oen ac eidion lleol. Felly nid yn unig y plannu'n sy'n bwysig ond hefyd y sgyrsiau a'r perthnasau sy'n cael eu ffurfio wrth wneud'.

Fel arfer mae'r grŵp yn cwrdd i blannu coed ar foreau Sadwrn a Llun. Rydym yn croesawu pawb, ac mae yna gacen bob amser!! Am ragor o wybodaeth e-bostiwch lindalime@myphone.coop <mailto:lindalime@myphone.coop> neu anfonwch neges destun at 07507464077



# GWENOLIAID

**Ar ôl darllen am y Wennol ddu (Swift) mis diwethaf a'r ymgyrch yn y pentref i godi'r niferoedd sy'n nythu ar ein tai rhaid cofio bod gwenoliaid eraill ac mae nifer ohonyn nhw. Chi gofiwch bod y wennol ddu prin yn glanio a bod fforch yn ei chynffon sy'n anodd ei weld os nad ydych yn agos iddi.**

Ar y llaw arall mae'r fforch yng nghynffon y *Wennol gyffredin* (*Swallow*) yn amlwg iawn pan mae hi'n hedfan. Eto gwneud ei nyth ei hun mae hon allan o fwd a gwair y tro yma mewn beudy neu sied. Siap hanner cwpan sydd iddo a hwnnw'n agored fel ein bod ni'n gallu gweld pigau'r cywion. Er yn agored mae'r cywion yn sych gan fod to dros eu pennau. Ar y cychwyn mae'r *Wennol gyffredin* yn hedfan mewn a mâs o wagle am gyfnod hir i wneud yn siŵr bod y man yn lle diogel iddi nythu a bod ceg y gwagle byth yn cau a'i



Gweler gynffon fforchiog amlwg y wennol gyffredin.

chaethiwo. Os gaiff hi gartref clyd eleni bosib daw hi yn ôl y flwyddyn nesaf ac eto os byw ac iach ar ôl y daith hir beryglus i'r Affrig. Mae *Gwennol y bondo* (*House martin*), fel mae ei henw yn awgrymu, yn gwneud mwy neu lai yr un peth sef cartref o fwd a gwair ond dan fondo adeilad saff unrhyw le cyfleus.

*Gwennol y glennydd* (*Sand martin*) yw'r pedwerydd yn yr ardal ond ar ochr afon neu lyn mae hon yn creu nyth iddi hi ei hun drwy dyllu mewn i'r tywod neu'r pridd. Mae ceg y twll yn amlwg, bell uwchben lefel y dŵr ac yn aml mae ganddi nifer go dda o ffrindiau sy'n gymdogion cyfagos iddi.

Mae sawl peth yn arbennig am y bedair wennol uchod: maen nhw dod mwy neu lai yr un adeg o'r flwyddyn, tua diwedd ein gwanwyn ni pan mae'r tywydd yn twymo; maen nhw'n hedfan yn chwim iawn am eu diet o bryfed ac yn bwyta wrth hedfan; allan o fwd a gwair maen nhw'n creu eu nythod a phan mae'r tywydd yn dechrau troi ar ddiwedd ein haf, maen nhw'n callio, yn casglu gyda'i gilydd yn un haid yn aml ar y gwifrau ac yn dechrau'r daith epig i wledydd cynhesach na ni yn yr Affrig.

Roedd Mick Green yn reit blês gyda'r ymateb i'w ymdrechion i osod bocsys i'r wennol ddu ddydd Sadwrn diwethaf, mae o leiaf deg bocs wedi eu dosbarthu gyda rhagor yn dangos diddordeb. O ganlyniad, os oes sgrechian byddarol yn y pentref dros yr haf dim ond codi'ch llygad yn uwch sydd ei angen i weld y twrw a diolch i Mick yr un pryd!

(os am focs gallwch holi elfynpugh@btinternet.com)


Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

# Cyngor Cymuned Llangynfelyn

**Mae'r flwyddyn 2022 wedi bod yn un brysur i Gyngor Cymuned Llangynfelyn. Ym mis Mai ymunodd pedwar cynghorydd newydd efo'r Cyngor, sef Deirdre Raffan, Karen Evans, Stuart Halestrap a Siân Stacey. Mae'r pedwar wedi bod yn mynychu ein cyfarfodydd a chynrychioli ein cymuned efo gweddill y cynghorwyr ers hynny. Rydym hefyd wedi croesawu Catrin M S Davies fel ein Cynghorydd Sir newydd i'n plith ni. Mae Michelle James eisoes wedi cymryd drosodd fel Cadeirydd y Cyngor a Guy Pargeter fel Is-gadeirydd.**

Yn ystod Medi 2022 croesawodd y cyngor Glerc newydd, Teresa Jones, sy'n cymryd drosodd oddi wrth Gillian Jones sydd bellach wedi ymddiswyddo. Dymunwn bob lwc iddi hi.



Ceisiodd y Cyngor am raglen grantiau Haf o Hwyl. Ar ôl y newyddion da fod y cais yn llwyddiannus cynhaliwyd digwyddiadau i bobl ifanc y gymuned dros bedair wythnos yn ystod gwyliau'r haf. Cynhaliwyd bedair sesiwn yn y goedwig gyda dros 15 o bobl ifanc yn dod i bob sesiwn. Roedd y sesiynau yma am ddim ac yn rhoi'r cyfle i blant chwarae a dysgu sgiliau newydd yn y coed. Dywedodd un rhiant "Roeddwn ni'n ddiolchgar tu hwnt am y sesiynau Hwyl yn y Coed… fe wnaeth y plant gael amser gwych, dysgu lot o grefftau coedwig a natur newydd a hefyd wneud ffrindiau newydd".



Rydym yn edrych ymlaen at y flwyddyn i ddod ac i gynrychioli'n cymuned y ffordd orau allwn ni. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu gwestiynau i'r cyngor mae croeso i chi gysylltu drwy e-bostio cyngorllangynfelync-council@hotmail.co.uk.
I'r rhai ohonoch sydd ddim yn gwybod, mae Cyngor Cymuned Llangynfelyn yn cyfarfod am 7yh ar yr ail nos Lun o bob mis ac mae croeso i aelodau o'r gymuned fynychu'r cyfarfodydd yma. Rydym hefyd yn rhoi ein cofnodion ar ein gwefan, sef, www.cyngor-llangynfelyn-council.weebly.com yn dilyn pob cyfarfod.






# Côr Meibion Aberystwyth

Ar ôl ychydig o seibiant dros y Nadolig mae'r côr wedi ail ddechrau ymarfer ar gyfer perfformiadau yn 2023. Braf iawn oedd croesawu tri wyneb newydd i gyfarfod cyntaf y côr ac, fel mae'n digwydd, tri bariton yw nhw. Ymlaen nawr i recriwtio tenor neu ddau, neu fwy! Un o brif ddigwyddiadau i aelodau'r côr eleni bydd cymryd rhan yn y Cyngerdd Canol Haf yn Neuadd Dewi Sant yng Nghaerdydd ar y 24ain o Fehefin. Bydd dros 30 o gorau meibion yn cael eu cynrychioli yn y digwyddiad arbennig hwn.

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno a Côr Meibion Aberystwyth – unrhyw lais, dewch aton ni, bydd yna groeso cynnes i chi. Mae'r ymarferion y côr yn cymryd lle yn y Clwb Rygbi yn Aberystwyth bob nos Iau rhwng 7.00 a 8.15 o'r gloch.

# Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

**Cafwyd ein cyfarfod cynta'r flwyddyn ar Ionawr 16eg yng ngwaelod y Neuadd Goffa. Cyn dechrau'r cyfarfod cyflwynwyd siec o £321 i Holly Aubrey, Cadeirydd Cylch Meithrin Tal-y-bont. Casglwyd yr arian yn ein Gwasanaeth Nadolig Cymunedol.**




Cyflwyno siec o £321 i Gylch Meithrin Tal-y-bont.

Yna cyflwynodd Betty Jenkins, ein gwraig wadd, Dulcie James o Aberystwyth. Ei thestun oedd 'Rownd a Rownd' ar ffurf cwis anffurfiol a chafwyd noson hwyliog yn ei chwmni. Bu pawb yn crafu pennau wrth ddyfalu beth oedd ystyr y geiriau. Ar ddiwedd y noson tim Betty, Trish a Fal oedd yn fuddugol.
Trefnwyd y noson a'r lluniaeth i ddilyn gan Aileen a Betty.

BJ

# Hwyl yn yr eira





Woody Evans a'i ddyn Eira a
Mostyn Lloyd-Williams a'i sled

# DONIOL

**Fe aeth Mari i'r dre yn gynnar iawn un diwrnod a phenderfynu cael brecwast mewn caffi. Yno roedd cynnig o frecwast llawn o ddau ŵy, cig moch, bara saim a selsig am hanner pris, sef £4.**

Pan gymerwyd yr archeb gofynnodd am y brecwast llawn ond heb yr wyau ond dywedwyd wrthi y codir felly y pris llawn sef £8. Oherwydd hynny archebodd y brecwast llawn gyda'r wyau.

Pan holwyd hi sut yr hoffai gael yr wyau atebodd 'Heb eu torri ac heb eu berwi'.

Serfiwyd y pryd gyda'r wyau'n gyfan ar y plât. Cymerodd Mari yr wyau a'u rhoi yn ei bag i fynd adre gyda hi.

Doedd Mari ddim yn dwp.





Alun Davies
Contractiwr Trydanol
NICEIC APPROVED CONTRACTOR
**M** 07703 169813
Islwyn, Bow Street, Ceredigion SY24 5AR
**E** alun.davies142@btinternet.com


# CLWB GWAWR Y PENNAU



Nos Sadwrn 21ain o Ionawr cafodd yr aelodau eu cinio blynyddol yn y *Wildfowler*, Tre'r-ddôl. Cawsom fwyd blasus tu hwnt, digon o gyfle i sgwrsio a chwis hwyliog yn cynnwys cwestiynau am ddathliadau 2022, digwyddiadau 2023 a rownd luniau o ferched Ceredigion. Diolch i Delyth am drefnu'r cinio a Nest am wneud y cwis.


Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111


# Y Gair Olaf

Daeth cyfnod Covid â'i heriau, a'n gorfodi ni i aros yn ein cartrefi. Buom 'dan glo' am gyfnodau hirion a chael mynd am dro unwaith y dydd yn unig. A dyna hyfryd oedd digwydd taro ar ambell gyfaill neu gydnabod ar eich tro o gwmpas y pentref. Fel arall roeddem yn gyfyngedig i alwadau ffôn, sgyrsiau a chyfarfodydd *Zoom* neu *WhatsApp* a *Facebook* a nifer ohonom yn gweithio o gartref. Daethom yn ddibynnol ar dechnoleg gan na allem fynychu'r dafarn, y capel na'r neuadd. Ond o hyn, tyfodd cymuned 'Clonc' a 'Covid' Tal-y-bont ar *WhatsApp*, gan greu cymuned newydd o drigolion nad oedd o bosibl yn adnabod ei gilydd cyn hynny. Fel y llaciodd y cyfyngiadau, dechreuodd mudiadau gyfarfod unwaith eto, ond daliodd 'Clonc Talybont' ati o hyd i gysylltu'r gymuned ac i brynu a gwerthu, neu roi am ddim!

Cymerwyd amser i ddychwelyd i 'normalrwydd newydd' wedi Covid ac er fod technoleg wedi bod o help i uno'r gymuned dros y cyfnod hwnnw, peidiwch ag anghofio fod yr 'hen normalrwydd' yn bodoli o hyd. Mae llawer o bwyllgorau o bob math yn cwrdd yn rheolaidd yma a thrigolion yn rhoi o'u hamser i drefnu digwyddiadau cymunedol. Un o'r problemau oesol yw cael gwaed newydd i ymuno. Wyddech chi fod Pwyllgor y Neuadd Goffa yn chwilio am aelodau newydd? Pwyllgor y Sioe yr un modd. Byddai Merched y Wawr yn falch o groesawu aelodau newydd. Beth am i chi fentro allan o'r tu ôl i'r cyfrifiadur a rhoi cynnig arni?

Megan Mai

# Chwaraeon a Hamdden

## COLLI CAWR

**Dioddefodd cymuned chwaraeon Gogledd Ceredigion ergyd drom wrth i ni golli Kevin 'Bones' Jenkins yn llawer rhy ifanc. Yr oedd yn gymeriad adnabyddus, brwdfrydig a hoffus i bawb a ddaeth ar ei draws ym myd y campau.**

Er mai gyda Clwb Pel-droed Penrhyn-coch y bydd 'Bones' yn cael ei gysylltu, bu'n chwaraewr brwd i Glwb Criced Tal-y-bont am nifer o flynyddoedd. Roedd ei awydd i gystadlu yr un mor amlwg ar y llain ac yr oedd yn y cwrt cosbi, ac yr oedd yn ychwanegu dur i'r tîm bob tro.

Chwaraewr amryddawn oedd 'Bones'. Fe fatiai yn llaw-chwith, gan amrywio ei gêm rhwng amddiffyn a tharo'r bêl yn galed a phell. Wrth fowlio, edrychai fel troellwr, ond ei ased mawr oedd ei daldra. Gwae unrhyw ddyfarnwr a oedd yn gwrthod ei apêl, ond buan iawn y buasai'r wên yn dychwelyd i wyneb y bowliwr anlwcus. Fel maeswr, cofiaf 'Bones' fel rhyw hebog yn barod i blymio ar y bêl. Yr oedd ei allu fel gôl-geidwad wedi rhoi breichiau telesgopig a dwylo diogel iddo.

Pan oeddwn yn gapten yn niwedd yr 1990au, yr oedd cael tîm llawn yn gamp sylweddol. Y fantais fawr o gael 'Bones' yn y tîm oedd y buasai'n un ardderchog am fachu chwaraewr arall fore Sadwrn. Yn wir, yr wyf yn ei gofio yn perswadio gwyliwr i faesu ar ein rhan – a'r unigolyn yna'n rhedeg batiwr olaf y tîm lleol allan i sicrhau buddugoliaeth.




Tîm criced Tal-y-bont gyda 'Bones' yn gapten.
Sefyll, Ch i'r Dh: Ian Rhodes (Sgoriwr), Simon Lloyd-Williams, Aled Vaughan, Simon Margrave-Jones, Paul Rowland, Alistair Rhodes, Ben Harper, Clive Cook.
Yn penlinio: Robbie Taylor, Jim Vaughan, Owen Roberts, Kevin Jenkins, Matthew Willis

Yn y cynghrair nos, yr oedd 'Bones' yn ran o 'Mean machine' clwb criced Penrhyn-coch, un o'r timau cryfaf a welwyd ganol wythnos. Chwaraeai pob gêm fel y dylai rhywun chwarae – i fwynhau ac i ennill, ac yr oedd y mwynhâd yna yn ymestyn i'r cymdeithasu amser te a diwedd y gêm. Roedd yn gwmniwr difyr, gyda rhes o straeon a pharodrwydd i dynnu coes.

Mae'r gair 'Sportsman' yn un anodd i drosi i'r Gymraeg, ond ni allaf feddwl am ddisgrifiad gwell o fonheddwr a gyfrannodd gymaint i fyd chwaraeon, a mawr fydd y golled i'w deulu a'i fro.

Huw Chambers

## Clwb Ieuenctid Tal-y-bont



Mae 2023 wedi cychwyn yn llawn bwrlwm yn y Clwb. Yn ystod mis Ionawr, yn ogystal â'r gweithgareddau arferol sydd i'w cynnig o fewn y Neuadd Goffa, fe wnaeth *BMO Coaching* a *Crackpots* ymweld â ni

Bu Bryn a Guto o *BMO Coaching* gyda ni am ddau sesiwn o hyfforddi a datblygu sgiliau pêl-droed. Roedd pawb wedi mwynhau mas draw gan dderbyn medal ar y diwedd! Diolch hefyd i *Bgc Wales* am y grant sydd wedi ein galluogi i roi pecynnau pêl-droed i'r bobl ifanc.

Fe ddaeth Tony o *Crackpots* atom ni ar gyfer sesiwn o beintio crochenwaith - roedd yn noson wych gyda sawl un o'r aelodau iau a hyn yn mwynhau mas draw a dangos ei dawn greadigol!

Mae'r Clwb yn cwrdd rhwng 18:30-20:30 ar Nos Wener yn Neuadd Goffa, Tal-y-bont yn ystod tymor yr ysgol. Mae croeso i bawb er mae'r rhan fwyaf o'r aelodau rhwng 10-16 oed. Ma' na naws gynnes llawn hwyl gyda'r rhai ifanc (a hyn!) yn mwynhau'r cyfle i gymdeithasu'n lleol.

Os oes gennych ddiddordeb i wirfoddoli, gwneud cyfraniad neu eisiau cefnogi'r clwb mewn unrhyw ffordd, mae croeso i chi gysylltu â Lowri ar 07730667126, neu danfonwch neges i dudalen Facebook y Clwb sef, Clwb Ieuenctid Tal-y-bont Youth Club.

